Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig

Chwefror 2020



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **1 Y mathau o gysylltiadau ymgysylltu sydd gan ysgolion â chyflogwyr** | **9** |
| **2 Nodweddion ysgolion sydd â chysylltiadau effeithiol â chyflogwyr** | **14** |
| **3 Heriau i ysgolion sy'n ymgysylltu â chyflogwyr, a chyflogwyr sy'n ymgysylltu ag ysgolion** | **20** |
| **Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso i ysgolion ar y modd y gall gweithio gyda chyflogwyr eu helpu i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru** | **22** |
| **Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** | **23** |
| **Geirfa** | **25** |
| **Cyfeiriadau** | **26** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2019-2020. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, timau arweinyddiaeth a staff ysgolion uwchradd ac arbennig, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i'r Siambr Fasnach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach, darparwyr dysgu yn y gwaith, colegau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr sy'n cynnig profiadau yn gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr.

Mae'r adroddiad yn archwilio'r amrywiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau sydd gan ysgolion uwchradd ac arbennig ledled Cymru â chyflogwyr. Mae'n ystyried ystod profiadau'r dysgwyr a nodweddion cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn archwilio'r modd y mae uwch arweinwyr mewn ysgolion yn dechrau ystyried sut i gynllunio ar gyfer thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn ogystal â thystiolaeth o arolygiadau ysgol, ymwelodd arolygwyr â 23 ysgol uwchradd a dwy ysgol arbennig y gwyddys fod ganddynt drefniadau partneriaeth â chyflogwyr neu fusnesau. Bu arolygwyr yn casglu tystiolaeth gan gyflogwyr, staff ysgolion ac awdurdodau lleol, a dysgwyr hefyd. Fe wnaethant gynnal arolwg o gyflogwyr, a bu arolygwyr yn craffu ar ddogfennau perthnasol ysgolion ac awdurdodau lleol. I gael rhagor o fanylion am sail dystiolaeth yr adroddiad, gweler Atodiad 1.

## Cefndir

Dywedodd adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach (Egan, 2017) y bu datblygu addysg mentergarwch mewn ysgolion yn y DU a ledled y byd yn nodwedd nodedig mewn systemau addysg dros y ganrif ddiwethaf, ond ei bod wedi profi'n anodd mesur ei heffaith. Elfen gref o addysg mentergarwch yw ymgysylltu â chyflogwyr a'r ffordd y gall roi cyfle i ddysgwyr elwa ar brofiadau go iawn, yn gysylltiedig â gwaith.

Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) "Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru". Bwriad y fframwaith statudol hwn oedd sicrhau bod "pobl ifanc yn barod i gymryd eu safle mewn byd gwaith sy'n cyflym newid yn yr economi fyd-eang" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, tud.2). Mae'n amlinellu amcanion dysgu ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau sylweddol i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2015. Un agwedd ar y newidiadau hyn oedd bod y gofyniad i ddysgwyr fynd ar leoliad profiad gwaith wedi cael ei ddisodli gan yr her Menter a

Chyflogadwyedd. Cynlluniwyd y gweithgarwch hwn i ddatblygu medrau dysgwyr, tra’n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau a phriodoleddau mentrus, a gwella cyflogadwyedd.

Yn 2017, canfu adroddiad Estyn, ‘Gyrfaoedd: gweithredu’r fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith mewn ysgolion uwchradd’, fod gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, cyflogwyr a sefydliadau eraill wedi dirywio’n sylweddol ers adroddiad Estyn (2012) ar weithredu’r Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith.  Yn ychwanegol, nododd yr adroddiad nad oedd gan ysgolion brosesau ddigon trylwyr ar waith i werthuso effeithiolrwydd cyfraniadau partneriaethau gyda chyflogwyr at y ddarpariaeth gyrfaoedd a’r byd gwaith, na meini prawf clir i fesur yr effaith neu’r gwerth am arian a gynigir gan bartneriaid allanol, yn y rhan fwyaf o achosion.

Cyn 2015, cynhaliodd Gyrfa Cymru gronfa ddata o leoliadau profiad posibl yn canolbwyntio ar waith.  Dilewyd y gofyniad hwn o gylch gorchwyl Gyrfa Cymru yn 2015, yn unol â gostyngiad mewn cyllid.  Roedd ysgolion yn araf i ymateb i’r newid hwn, ac mae’r defnydd o brofiad yn canolbwyntio ar waith wedi gostwng yn sylweddol yn y mwyafrif o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt ar gyfer adroddiad 2017 (Estyn, 2017).  Mewn 29% o ysgolion, ni chymerodd unrhyw ddysgwyr ran mewn profiad yn canolbwyntio ar waith.

Yn Lloegr, ymchwiliodd adroddiad Ofsted (2016), ‘Getting ready for work’, i argaeledd ac effeithiolrwydd addysg mentergarwch a dysgu yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd.  Canfu arolygwyr fod ysgolion yn aml yn sôn am bwysau ar gyllid ac amser cwricwlwm yn rhesymau dros beidio â blaenoriaethu addysg mentergarwch.  Roedd cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu neu brofiadau ystyrlon yn gysylltiedig â gwaith wedi eu cyfyngu yng nghyfnod allweddol 4, ac roedd ymglymiad busnes mewn rhai ysgolion yn dibynnu’n ormodol ar rwydweithiau personol o athrawon a rhieni.

Yn Yr Alban, ‘Developing the Young Workforce’ yw strategaeth cyflogaeth ieuenctid Llywodraeth Yr Alban (2014).  Nod grwpiau rhanbarthol wedi eu harwain gan gyflogwyr ledled Yr Alban yw cysylltu cyflogwyr ag addysg.  Canfu adroddiad Education Scotland (2017), Review of the implementation of the Career Education Standard (3-18), the Work Placement Standard and Guidance on School/Employer Partnerships, er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd o ran y datblygiadau hyn, bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu eu cysylltiadau â chyflogwyr lleol a chenedlaethol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu ystyrlon yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer pobl ifanc.  Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes, yn cynnig ystod eang o gyrsiau trwy ymgynghori â chyflogwyr, gan arwain at ddarparu cymwysterau sy’n berthnasol i ddiwydiant.

Mae’r canfyddiadau hyn o Loegr a’r Alban yn amlygu’r angen i Gymru ystyried yn ofalus sut orau i ddatblygu partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr wrth iddynt gynllunio eu cwricwla lleol newydd.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu ychydig o fentrau sydd wedi eu cynllunio i gefnogi ac annog ysgolion i ddatblygu partneriaeth â chyflogwyr.  Esbonnir y mentrau hyn yn yr adrannau nesaf.

## Dosbarth Busnes

Mae Dosbarth Busnes yn bartneriaeth a ddatblygwyd rhwng Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a Busnes yn y Gymuned (BITC). Trwy ddod ag ysgolion a busnesau at ei gilydd, nod Dosbarth Busnes yw gwella dealltwriaeth dysgwyr o fyd gwaith, ymestyn eu dewisiadau gyrfa, a datblygu eu medrau cyflogadwyedd. Yn dibynnu ar anghenion yr ysgol, darperir cymorth ar draws pedwar maes allweddol, sef:

- Arweinyddiaeth a llywodraethu – mentora penaethiaid
- Cwricwlwm – cynnal gweithdai diwydiant
- Menter a chyflogadwyedd – medrau cyfweld, ysgrifennu CV a phrofiadau gwaith
- Materion ehangach – gan gynnwys ymglymiad cymunedol ac ymgysylltu â rhieni

## Y Gyfnewidfa Addysg Busnes (EBE)

Cronfa ddata sy’n cael ei hwyluso gan Gyrfa Cymru yw EBE, sydd wedi’i dylunio i roi cyfle i gyflogwyr weithio gydag ysgolion i ddatblygu rhaglenni’r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr, sydd wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â busnes, cyflogwyr a phrofiad gwaith. Mae cyflogwyr yn cytuno i gael eu hychwanegu at y gronfa ddata, ac yn nodi pa weithgareddau y gallant eu cynnig i ysgolion. Mae timau ymgysylltu â busnesau Gyrfa Cymru yn hwyluso’r cyfathrebu rhwng ysgolion a chyflogwyr.

Nod y gronfa ddata hon yw rhoi’r rhyddid a’r hyder i ysgolion ddatblygu rhaglenni a gefnogir gan gyflogwyr, sy’n ehangu’r cwricwlwm, ar gyfer eu dysgwyr. Mae’r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn rhan o Weledigaeth Gyrfa Cymru (2017) – ‘Newid Bywydau’, sy’n anelu at hwyluso cysylltiadau gwell rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae’r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc i ddatblygu eu gyrfaoedd trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- ymweliadau â diwydiant sy’n canolbwyntio ar y cwricwlwm
- efelychiadau gwaith neu fusnes, gan gynnwys gweithdai gyda chyflogwyr
- cyfranogiad cymunedol yn gysylltiedig â gwaith trwy wirfoddoli
- diwrnodau diwydiant neu ffeiriau gyrfaoedd
- lleoliadau gwaith estynedig ar gyfer dysgwyr a nodwyd

I ddechrau, dechreuodd y prosiect fel cynllun peilot ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Cheredigion rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2017, a lansiwyd y prosiect yn swyddogol ym mis Ionawr 2018. Ym mis Ionawr 2020, roedd 13,853 o gyflogwyr wedi eu cofrestru ar y Gyfnewidfa. Hyd at fis Ionawr 2020, mae Gyrfa Cymru wedi hyfforddi 233 o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru i ddefnyddio’r Gyfnewidfa Addysg Busnes[1].

## Syniadau Mawr Cymru (BIW)

Menter a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw Syniadau Mawr Cymru i ddatblygu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru i gefnogi cyflwyno’r Cynllun Gweithredu Economaidd, ac fe gaiff ei ariannu’n rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae Syniadau Mawr Cymru yn gweithredu mewn sawl ysgol ledled Cymru, gan ddarparu

[1]Cafwyd y ffigurau hyn gan Gyrfa Cymru fel rhan o’n proses casglu tystiolaeth.

cyfleoedd i entrepreneuriaid gyflwyno gweithdai am awr neu ddwy i archwilio mentergarwch. Mae'r digwyddiadau wedi eu cynllunio i ddarparu ymgysylltiad ysbrydoledig ag entrepreneuriaid, archwilio'r meddylfryd entrepreneuraidd, cynhyrchu syniadau a datblygu dealltwriaeth o greu busnes.

### Tasglu'r Cymoedd

Cyhoeddwyd y cynllun cyflawni 'Ein Cymoedd: Ein Dyfodol' cyntaf ym mis Gorffennaf 2017. I gyd-fynd â'r fenter hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau peilot Rheolwyr Busnes Ysgolion yn Canolbwyntio ar y Gymuned mewn naw ardal o fis Gorffennaf 2018 i ychwanegu at gynlluniau peilot Rheolwyr Busnes Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2017. Bwriad saith o'r cynlluniau peilot Rheolwyr Busnes Ysgolion yn Canolbwyntio ar y Gymuned oedd cefnogi cyflwyno'r fenter trwy gynyddu cysylltiadau rhwng cymunedau lleol ac ysgolion yn ardaloedd y Dwyrain, y Gorllewin a Chanol y Cymoedd. Ffocws nifer o gynlluniau peilot oedd swyddi, medrau ac entrepreneuriaeth.

### Prosiect gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)

Mae rhaglen STEM Cymru 'Merched i STEM' wedi galluogi grwpiau o ferched i ymweld â chyflogwyr proffil uchel i weld y cyfleoedd a gynigir i ferched weithio yn y diwydiant technegol. Gallant archwilio'r rhagolygon ar gyfer llwybrau cyflogaeth a phrentisiaeth yn y dyfodol.

### Trefniadau cwricwlaidd presennol a newidiadau arfaethedig

Y trefniadau presennol yw bod addysg yn gysylltiedig â gwaith yn ffurfio rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer yr holl ddysgwyr cofrestredig rhwng 11 ac 16 oed mewn ysgolion a gynhelir ac yn canolbwyntio ar fedrau a fyddai'n berthnasol yn y gweithle. Mae addysg gyrfaoedd, ar y llaw arall, yn canolbwyntio ar gyngor a fydd yn tywys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau am hyfforddiant neu addysg bellach neu wrth ddechrau ym myd gwaith.

Un o bedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru yw datblygu dysgwyr llwyddiannus ac uchelgeisiol sy'n barod ar gyfer bywyd a byd gwaith. Yn y canllawiau cyhoeddedig (Llywodraeth Cymru, 2019), mae gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith yn thema drawsbynciol i'w datblygu ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad, ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Mae trefniadau'r cwricwlwm newydd arfaethedig yn datgan y bydd addysg gyrfaoedd sy'n briodol i oedran ar gael ym mhob maes dysgu a phrofiad. Pan fo'n briodol, bydd profiadau perthnasol yn gysylltiedig â gwaith ar gael hefyd. Yn benodol, bydd addysg gyrfaoedd hefyd yn cael ei chynnwys o fewn y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles, i adlewyrchu pwysigrwydd penderfyniadau yn gysylltiedig â gyrfaoedd ar iechyd a lles dysgwyr. Mae'r maes dysgu a phrofiad hwn yn pwysleisio medrau fel ymateb i heriau a datblygu perthnasoedd cadarnhaol sy'n hanfodol i yrfaoedd diweddarach dysgwyr.

Bydd arweiniad gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo ymarferwyr. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r arweiniad hwn wrth gynllunio addysg gyrfaoedd a gweithgareddau profiad yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Bydd yr

arweiniad hwn yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cynllun peilot o Feincnodau Gatsby ar gyfer Arweiniad Gyrfaoedd Da (Holman, 2014) ar draws awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.  Mae'r meincnodau yn diffinio arweiniad gyrfaoedd o'r radd flaenaf, gyda bwriad o'u defnyddio ledled Cymru maes o law.

## Prif ganfyddiadau

1 Pan fydd ysgolion yn ymgysylltu'n dda ac yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth well o fyd gwaith a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth hwn fel arfer yn dibynnu ar weledigaeth ac ysgogiad y pennaeth, uwch reolwyr a staff yr ysgol.

2 Mae ysgolion yn ymgysylltu â chyflogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae llawer o ysgolion yn cynnig ystod addas o brofiadau yn gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr, gan gynnwys profiadau sy'n rhan o'r cwricwlwm, diwrnodau thema pan gaiff yr amserlen arferol ei hatal, gweithgareddau allgyrsiol, ymweliadau â lleoedd gwaith, neu drwy siaradwyr gwadd.

3 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig profiad gwaith[2] i ddysgwyr erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y bu llawer o ysgolion yn araf yn ymateb i'r newid yng nghyfrifoldebau Gyrfa Cymru. Pan fydd ysgolion wedi cynnal aelod o staff sy'n gyfrifol am yrfaoedd, yn aml, maent yn darparu cyfleoedd o hyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith. Er enghraifft, roedd gan un ysgol yr ymwelwyd â hi yng Ngogledd Cymru rwydwaith eang o ryw 130 o gyflogwyr, ac mae bron pob un o ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn mynd ar leoliadau gwaith yn ystod tymor yr haf. Mae ychydig o ysgolion yn cydweithio i ariannu costau sicrhau bod lleoliadau gwaith yn ddiogel a saff ar gyfer dysgwyr, a bod cyflogwyr yn cael eu harchwilio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, disgwylir i ddysgwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain, gyda chymorth gan yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd cyflawni hyn.

4 Mae ychydig o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau â busnesau lleol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Mae gan un ysgol gysylltiadau cryf â safle cynhyrchu dur. Gall dysgwyr ymweld â'r safle i weld sut mae'r safle yn gweithredu, a dysgu am werth prentisiaethau. Mewn ysgol arall, mae dysgwyr sydd â diddordeb mewn gwaith peirianneg yn gweithio gyda gweithgynhyrchwr teganau lleol yn ennill profiadau go iawn defnyddiol, gan ddefnyddio dylunio â chymorth cyfrifiadur a datblygu prototeipiau ar gyfer teganau newydd.

5 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymgymryd â menter y Gyfnewidfa Addysg Busnes ac yn gwahodd cyflogwyr (er enghraifft y lluoedd arfog, yr heddlu a'r diwydiant adeiladu) i ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr am eu gyrfaoedd. Yn aml, mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais ffug a chymryd rhan mewn chwarae rôl cyfweliad. Mae gan un ysgol bartneriaeth gref â dau gwmni adeiladu sy'n ymweld â'r ysgol i ganolbwyntio ar y medrau sydd eu hangen ar gyfer y diwydiant, gan gynnwys cyfathrebu, arweinyddiaeth a gweithio mewn tîm.

6 Mae llawer o ysgolion yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau mentergarwch trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn defnyddio cysyniad Dragons' Den y rhaglen deledu i annog medrau entrepreneuraidd dysgwyr. Addysgir dysgwyr i ddatblygu cynlluniau busnes, a chanfod costau, gwerthiannau, elw a cholled i'w galluogi i hyrwyddo cynnyrch i ddarpar fuddsoddwyr o fusnesau

[2] Lleoliadau gwaith a gynigir gan gyflogwyr ar gyfer dysgwyr

lleol. Mae ychydig o ysgolion yn darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y gymuned, trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bennaf. Er enghraifft, mae gan un ysgol gysylltiadau cryf iawn â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae dysgwyr yn ymweld â chartrefi gofal i ennill medrau cymdeithasol trwy siarad â phreswylwyr. Mae gan ysgol arall gysylltiadau â phrosiectau cymunedol sy'n darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith mewn garddio.

7 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnal ffair yrfaoedd flynyddol ar gyfer eu dysgwyr, y maent yn gwahodd cyflogwyr lleol a chenedlaethol, colegau, prifysgolion a darparwyr eraill iddi. Mae dysgwyr yn mynychu'r ffair i siarad â chyflogwyr ac yn trafod eu hopsiynau gyrfa, ond nid yw llawer o ysgolion yn mesur effaith y ffeiriau gyrfaoedd hyn yn ddigon da.

8 Pan fydd cyflogwyr yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion, gallant ddefnyddio mentrau i hyrwyddo rhaglenni prentisiaeth o fewn eu sefydliad. Maent yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr am y medrau a'r priodoleddau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad swyddi. Gwnaeth un cyflogwr sylw am y budd i ddatblygiad eu staff eu hunain, trwy roi cyfle i staff weithio gyda phobl ifanc i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith.

9 Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae gan staff ddealltwriaeth gref o'r farchnad lafur economaidd yn yr ardal. Mae gan un awdurdod lleol dîm addysg, cyflogaeth a hyfforddiant dynodedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i hyrwyddo a hwyluso addysg yn gysylltiedig â gwaith a phartneriaethau â chyflogwyr. Mae hyn yn helpu athrawon i hyrwyddo dealltwriaeth o'r byd gwaith trwy'r cwricwlwm.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ystyried yn ofalus thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, a sut gall dysgwyr ddatblygu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, pan fyddant yn cynllunio eu cwricwlwm newydd

A2 Ystyried sut gallant wella dealltwriaeth dysgwyr o’r gweithle trwy ddarparu ystod ehangach o brofiadau go iawn mewn partneriaeth â chyflogwyr

A3 Gwerthuso effaith partneriaethau â chyflogwyr a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith ar ddealltwriaeth dysgwyr o’r byd gwaith

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 Sicrhau bod cynllunio’r cwricwlwm lleol yn rhoi ystyriaeth dda i yrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, ac yn cynnwys cyflogwyr

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i:**

A5 Werthuso effaith rhaglenni Y Gyfnewidfa Addysg Busnes, Dosbarth Busnes a Syniadau Mawr Cymru

A6 Llunio arweiniad i gynorthwyo staff ysgolion i greu cysylltiadau â chyflogwyr

## 1 Y mathau o gysylltiadau ymgysylltu sydd gan ysgolion â chyflogwyr

10 Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn ymgysylltu â chyflogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn cynnig profiadau yn gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr, gan gynnwys:

- Cyfnodau byr o brofiad gwaith
- Ymweliadau â diwydiant
- Ymweliadau gan gyflogwyr
- Cyfranogiad cymunedol yn gysylltiedig â gwaith
- Gweithgareddau menter
- Hyfforddiant a mentora
- Ffeiriau gyrfaoedd

### Cyfnodau byr o brofiad gwaith

11 Darperir profiad gwaith yn ôl disgresiwn pob ysgol. Mae'n ffurfio rhan o'r cwricwlwm Gyrfaoedd a byd gwaith. Cyfrifoldeb pob ysgol yw darparu rhaglen o brofiadau yn canolbwyntio ar waith ar gyfer ei dysgwyr.

12 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig profiad gwaith i ddysgwyr erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y bu llawer o ysgolion yn araf i ymateb i'r newid yng nghyfrifoldebau Gyrfa Cymru. Mae ysgolion sydd wedi cynnal aelod o staff sy'n gyfrifol am yrfaoedd yn aml yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith. Mewn un ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd i geisio profiad gwaith yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Caiff hyn ei hwyluso gan hyfforddwr dysgu o Gyrfa Cymru. Mae'r ysgol yn cynnal 'Wythnos yn gysylltiedig â Gwaith' hefyd yn lle'r model profiad gwaith traddodiadol. Mae hyn wedi cael adborth cadarnhaol gan ddysgwyr.

13 Mewn ysgol arall, mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith am wythnos yn ystod pythefnos Bagloriaeth Cymru. Caiff llawer o'r trefniadau eu gwneud gan rieni a dysgwyr, cyn cael eu hadolygu gan staff yr ysgol. Caiff y broses profiad gwaith ei rheoli gan hyfforddwr dysgu, sydd â chronfa ddata o gyflogwyr sy'n gallu darparu lleoliadau gwaith. Dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 fod y profiad gwaith wedi eu helpu i ddatblygu ystod o fedrau fel gweithio gyda phobl eraill mewn amgylchedd proffesiynol, ac ennill dealltwriaeth o'r gweithle. Fe wnaeth y profiad helpu dysgwyr i wella eu hyder hefyd. Roedd bron pob un o'r dysgwyr a ymgymerodd â phrofiad gwaith yn meddwl ei fod yn fuddiol. Er nad ymgymerodd unrhyw ddysgwyr â phrofiad gwaith mewn maes yr oeddent yn gobeithio dilyn eu gyrfa ynddo, cadarnhaodd y profiad y sectorau hynny nad oeddent eisiau gweithio ynddynt.

14 Mae pedair ysgol yng ngogledd Cymru yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad thematig hwn yn cynnig ystod eang o brofiad gwaith. Mae hyn yn bennaf oherwydd ymrwymiad staff yr ysgol a'r rhieni. Er enghraifft, mae gan un ysgol rwydwaith eang o ryw 130 o gyflogwyr, ac mae bron pob un o ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn ymgymryd â lleoliadau gwaith yn ystod tymor yr haf. Mae ychydig o ysgolion lleol

yn cydweithio i ariannu'r costau i sicrhau bod lleoliadau gwaith yn ddiogel a saff ar gyfer dysgwyr, a bod cyflogwyr yn cael eu harchwilio. Fodd bynnag, mewn ysgolion eraill, disgwylir i ddysgwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain, ar y cyfan, gyda rhywfaint o gymorth gan yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd trefnu hyn.

15 Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw ysgolion bob amser yn meithrin cysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn am y gwaith a wna ysgolion gyda chyflogwyr.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Llanidloes**

Mae'r ysgol yn cyflogi dau gydlynydd profiad gwaith sy'n gwneud yn siŵr fod lleoliadau gwaith yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn brofiad cadarnhaol i ddysgwyr.

Mae'r cydlynwyr yn helpu paratoi dysgwyr ar gyfer eu lleoliad gwaith. Maent yn sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cael arweiniad ar ddiogelu ac iechyd a lles gan swyddog iechyd a diogelwch yr ysgol cyn iddynt fynd ar leoliad gwaith.

Mae dau gydlynydd, sydd wedi cael hyfforddiant gan y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol, yn cynnal ymweliadau cyn-lleoliad â'r holl gyflogwyr i ddarparu gwybodaeth am y dysgwyr, gwerthuso gweithdrefnau iechyd a diogelwch, a chynnal y gwiriadau yswiriant angenrheidiol.

Mae'r cydlynwyr yn helpu dysgwyr i osod targedau am yr hyn maent eisiau ei gyflawni o'u profiad gwaith. Mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau dyddiadur lleoliad gwaith i annog myfyrio ar eu datblygiad o ran dysgu a medrau. Mae cydlynwyr yn ymweld â phob un o'r dysgwyr yn ystod eu lleoliad gwaith i adolygu eu cynnydd a gwirio eu lles.

Mae'r cydlynwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o brofiadau dysgwyr ar brofiad gwaith, gan ddefnyddio adborth gan ddysgwyr a chyflogwyr i fireinio'r rhestr o ddarparwyr lleoliadau a argymehllir. Maent yn cynnal perthnasoedd cryf â dysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr a chyflogwyr sy'n cymryd rhan. Er enghraifft, mae athrawon yn trafod cyfleoedd lleoliad gwaith mewn cyfarfodydd un i un yn ystod nosweithiau rhieni Blwyddyn 10.

### Ymweliadau â diwydiant

16 Mae ychydig o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau defnyddiol â busnesau lleol sydd yr un mor fuddiol i'r ysgol a'r busnes, gan alluogi dysgwyr i ddysgu am fyd gwaith. Mae gan un ysgol gysylltiadau cryf â safle cynhyrchu dur ym Mhort Talbot. Gall dysgwyr ymweld â'r safle i weld sut mae'r safle yn gweithredu a dysgu am werth prentisiaethau. Mewn ysgol arall, mae dysgwyr peirianneg yn gweithio gyda gweithgynhyrchwr teganau lleol. Mae'r dysgwyr hyn yn ennill profiadau go iawn gan ddefnyddio dylunio â chymorth cyfrifiadur (CAD) a datblygu prototeipiau ar gyfer teganau newydd.

17 Mewn un ysgol, mae'r rhaglen cyfoethogi gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yn ceisio ennyn diddordeb dysgwyr ym myd busnes a diwydiant, ble bynnag y bo modd. Er enghraifft, mae cymryd rhan yn rhaglen 'Merched i STEM' gan STEM Cymru wedi galluogi grwpiau o ferched i ymweld â chyflogwyr proffil uchel. Maent yn dod i wybod am y cyfleoedd a gynigir i ferched weithio yn y diwydiant technegol, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer llwybrau cyflogaeth a phrentisiaeth yn y dyfodol.

### Ymweliadau gan gyflogwyr

18 Mae ychydig o ysgolion yn ymgysylltu â chyflogwyr sy'n ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr am yrfaoedd yn y lluoedd arfog, yr heddlu a'r diwydiant adeiladu. Yn aml, mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys llenwi ffurflen gais ffug a chwarae rôl cyfweliad. Er enghraifft, mae gan un ysgol bartneriaeth gref â dau gwmni adeiladu. Mae'r cwmnïau hyn yn ymweld â'r ysgol i ganolbwyntio ar y cyfleoedd ehangach mewn adeiladu, gan gynnwys cyfathrebu, arweinyddiaeth, gwaith tîm a chydweithio. Mae'r ysgol yn cynnal wythnos 'rhoi cynnig arni' sy'n galluogi dysgwyr i brofi gwahanol yrfaoedd am ryw awr, fel trin gwallt, arlwyo ac adeiladu. Trwy ymgynghorydd ymgysylltu â busnes, mae'r ysgol yn trefnu sgyrsiau am fenter a phrifysgol. Caiff dysgwyr eu hannog i gwblhau cwis paru swyddi. Maent yn ymgysylltu'n dda ac wedi eu cymell i ddilyn gwahanol opsiynau gyrfa. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r ffordd y mae'r ysgol yn ystyried eu diddordebau wrth ymchwilio i gyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith.

19 Mae gan ysgol arall lawer o bartneriaethau â busnesau lleol, gan gynnwys partneriaeth â chontractwr adeiladu sy'n adnewyddu ac yn ymestyn yr ysgol. Mae'r contractwr yn cynnal ffug gyfweliadau a sesiynau datblygu curriculum vitae. Pan fydd dysgwyr yn llwyddiannus, mae'r contractwr yn cynnig lle ar raglen brentisiaeth. Mae un ysgol yn gweithio gyda Sgiliau Bywyd Barclays ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i ddatblygu medrau cyflogadwyedd, gan gynnwys llenwi ffurflenni cais am swydd. Mae'r ysgol yn cynnig partneriaethau ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed hefyd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gyda dysgwyr rhwng 11 ac 16 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) trwy brosiect Cynnydd. Mae'r prosiect hwn yn eu helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol a gwydnwch, ac yn eu paratoi ar gyfer gwaith pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r ysgol hon yn gwahodd cyflogwyr i'r ysgol hefyd i drafod gyrfaoedd gyda dysgwyr fel rhan o 'ddiwrnod dyheadau'.

### Cyfranogiad cymunedol yn gysylltiedig â gwaith

20 Mae ychydig o ysgolion arbennig yn darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y gymuned. Er enghraifft, mae gan un ysgol gysylltiadau cryf iawn â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae dysgwyr yn ymweld â chartrefi gofal i ennill medrau cymdeithasol trwy siarad â phreswylwyr. Mae gan ysgol arall nifer o fentrau â phrosectiau cymunedol fel 'Welis Gwyrdd' ('Green Wellies') sy'n darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith mewn garddio. Mae un ysgol yn gweithio'n dda gyda sefydliadau cymunedol i ddod o hyd i leoliadau gwaith ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, fel y rhai â Syndrom Down, ac yn darparu cymorth ar gyfer rhieni lleol fel rhan o'u gwaith ar ddinasyddiaeth a chymuned.

21 Mae ysgol arall wedi datblygu cysylltiadau cryf ag elusen lles anifeiliaid leol. Prosiect cymunedol yn gysylltiedig â gwaith oedd hwn i ddechrau. Yn dilyn ei lwyddiant, datblygodd yr ysgol y prosiect ar gyfer nifer fach o ddysgwyr a oedd yn profi heriau yn yr ysgol, ac a oedd mewn perygl o ymddieithrio ac yn dangos diffyg hyder a hunan-barch. Cysylltodd yr ysgol y gwaith hwn â chymhwyster BTEC lefel 2 ar Gefn Gwlad a'r Amgylchedd. Cafodd effaith sylweddol ar agwedd, presenoldeb, balchder personol a dysgu'r dysgwyr. Dywedodd dysgwyr eu bod wedi mwynhau'r rhyddid, yr hyblygrwydd a'r cyfrifoldeb a ddarperir gan y profiad yn gysylltiedig â gwaith. Mae gan yr ysgol hon gysylltiadau sefydledig hefyd â nifer o barciau cymunedol ac ysgolion cynradd lle mae dysgwyr yn gwneud gwaith a gweithgareddau garddio, fel adeiladu gardd bywyd gwyllt.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gyfun Glynrhedynog**

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddifreintiedig yng nghwm Rhondda Fach. Caiff diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn lleol ei gymhlethu gan gysylltiadau cludiant gwael ag ardaloedd eraill. Mae'r ysgol yn ymdrechu'n galed i oresgyn yr anfanteision hyn. Mae wedi sefydlu menter gymunedol Partneriaeth Rhedyn, sy'n darparu cyflogaeth leol y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys y feithrinfa Dechrau'n Deg a'r llyfrgell leol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r bartneriaeth i ddarparu 'cyrsiau rhagflas' gwaith, profiad gwaith, a phrentisiaethau Blwyddyn 11 i ddysgwyr na fyddent, fel arall, yn cael unrhyw gyfleoedd i gael profiad yn y gweithle.

Mae'r ysgol yn brif ddarparwr gwaith a chymorth cymunedol yn yr ardal, ac felly'n helpu amlygu'r gymuned ehangach i fanteision addysg a hyfforddiant.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol â chymdeithas dai sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i'r ysgol, gan gynnwys lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith i ddysgwyr. Mae staff ysgol hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda chwmnïau yn yr ardal, gan eu gwahodd i'r ysgol i siarad â dysgwyr a darparu gwybodaeth am swyddi a hyfforddiant.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau ymestyn ar gyfer dysgwyr mwy abl, yn ogystal â chymorth ymarferol yn gysylltiedig â gwaith. Mae'n darparu cymorth personol helaeth ar gyfer dysgwyr a theuluoedd, ac mae hefyd yn ceisio ehangu gorwelion a phrofiadau y tu hwnt i'r ardal leol.

## Gweithgareddau mentergarwch

22 Mae llawer o ysgolion yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau mentergarwch trwy Fagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae ysgolion yn defnyddio cysyniad Dragons' Den y rhaglen deledu i annog datblygiad medrau entrepreneuraidd dysgwyr. Caiff dysgwyr eu haddysgu i ddatblygu cynlluniau busnes, a chanfod costau, gwerthiannau, elw a cholled i'w galluogi i gynllunio a hyrwyddo cynnyrch i ddarpar fuddsoddwyr o fusnesau lleol. Mae un ysgol yn cynnal wythnos fenter, pan fydd grwpiau o ddysgwyr yn cynllunio menter fusnes ac yn hyrwyddo cynhyrchion gwreiddiol i fusnes. Mae'r ysgol hon wedi cynnal diwrnodau STEM y Lluoedd Arfog ar gyfer 300 o ddysgwyr dros y tair blynedd ddiwethaf hefyd. Yn ystod y diwrnodau

hyn, mae dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau gwyddonol i greu gleider a yrrir.

23 Mae'r ysgol yn cynnal cystadleuaeth mewn partneriaeth â Gorsaf Bŵer Eon Rheidol hefyd i ddatblygu nifer o gynhyrchion, fel cerbyd archwilio tanddwr a weithredir o bell, ac anemomedr a chanfyddwr cyfeiriad y gwynt ar gyfer lleoliadau tyrbin. Mewn ysgol arall, nododd dysgwyr fod prosiect menter Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol os ydynt am gychwyn busnes, ac roeddent yn gallu esbonio'r modd y gwnaeth y prosiect eu galluogi i ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau mewn grŵp.

24 Mewn un ysgol arbennig, mae dysgwyr ag anghenion cymhleth yn gwneud crefftau ar gyfer Sul y Mamau, y Pasg a'r Nadolig i godi arian i ddysgwyr fynd ar deithiau ysgol.

### Hyfforddiant a mentora

25 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn hyfforddi dysgwyr mewn medrau cyflogaeth, fel ysgrifennu curriculum vitae a pharatoi ar gyfer cyfweliadau. Mae ychydig o ysgolion yn gwahodd cyflogwyr lleol i'r ysgol i gynnal ffug gyfweliadau â dysgwyr a rhoi adborth iddynt ar eu cryfderau, a ble gallant wella.

### Ffeiriau gyrfaoedd

26 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnal ffair yrfaoedd flynyddol, sy'n cael ei hwyluso a'i threfnu gan Gyrfa Cymru. Maent yn gwahodd cyflogwyr lleol a chenedlaethol, colegau, prifysgolion a darparwyr eraill i fod yn bresennol. Mae dysgwyr yn mynychu'r ffair i siarad â chyflogwyr a thrafod eu hopsiynau gyrfa. Mewn un ysgol, mae pob un o'r dysgwyr yn mynychu ffair yrfaoedd wedi'i threfnu gan y brifysgol leol, sy'n cynnwys cyflogwyr lleol a rhanbarthol. Nododd y staff fod y digwyddiad proffil uchel hwn yn cael effaith sylweddol ar gysylltu dysgwyr â llwybrau gyrfa posibl. Mewn ysgol arall, mae dysgwyr ym Mlwyddyn 9 yn mynychu ffair yrfaoedd wedi'i threfnu gan Gyrfa Cymru a gynhelir ar faes y Sioe Frenhinol. Nid yw llawer o ysgolion yn gwerthuso effaith y ffair yrfaoedd nac yn cael gwybodaeth gan gyflogwyr a dysgwyr i gynllunio digwyddiadau yn well yn y dyfodol.

27 Yn gyffredinol, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ymwybodol o'r amrywiaeth lawn o lwybrau sydd ar gael iddynt. Caiff bron pob un o'r dysgwyr eu cyfeirio at gyrsiau mewn prifysgol neu golegau addysg bellach. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymwybodol o gyfleoedd eraill ar gyfer astudio ymhellach, fel prentisiaethau. Mae amrywiadau yng nghyllid a chylch gwaith Gyrfa Cymru wedi cyfrannu tuag at anghysondebau o ran cyngor ac arweiniad diduedd.

28 Yn aml, mae llawer o ysgolion yn defnyddio gweminarau Gyrfa Cymru am lwybrau penodol fel y gwasanaeth tân a'r heddlu. Mae'r gweminarau yn adnodd defnyddiol i athrawon esbonio i ddysgwyr am y gwahanol lwybrau a dewisiadau gyrfa. Ond mae llawer o ddysgwyr ac athrawon yn ei chael yn anodd llywio gwefan Gyrfa Cymru wrth geisio dod o hyd i wybodaeth am eu dewisiadau, yn enwedig dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 2 Nodweddion ysgolion sydd â chysylltiadau effeithiol â chyflogwyr

29 Pan fydd gan ysgolion gysylltiadau effeithiol â chyflogwyr, maent yn nodweddiadol yn arddangos y nodweddion canlynol:

- Gweledigaeth ac ymroddiad cryf gan uwch arweinwyr
- Dysgwyr sy'n ymgymryd â phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith sy'n effeithio ar eu lles, eu medrau cyflogadwyedd a'u dewisiadau gyrfa
- Cysylltiadau cryf a phwrpasol â chyflogwyr
- Defnyddio a datblygu'n briodol y staff sy'n adnabod eu dysgwyr a'u dyheadau gyrfa, ac sy'n deall sut i baratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith
- Defnyddio gwybodaeth a data olrhain y farchnad lafur i ddeall yr economi leol
- Gwerthuso partneriaethau â chyflogwyr
- Partneriaethau o ansawdd uchel â darparwyr eraill, mentrau cenedlaethol, ac ymgysylltu â rhieni

### Gweledigaeth ac ymroddiad cryf gan uwch arweinwyr

30 Mewn ychydig o ysgolion, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir a chynllunio strategol cadarn o ran y Cwricwlwm newydd i Gymru. Yn y cyd-destun hwn, maent wedi datblygu amrywiaeth o brofiadau ysgogol yn gysylltiedig â gwaith. Mae ganddynt synnwyr cryf o ddiben moesol, ac yn deall pam mae'n bwysig helpu dysgwyr i ennill medrau cyflogadwyedd. Mae uwch arweinwyr yn cyfleu pwysigrwydd partneriaethau â chyflogwyr yn dda i bob un o'u staff. Maent wedi ymrwymo'n llawn i feithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr, ac yn cydnabod eu cyfraniad gwerthfawr.

31 Mewn ysgolion sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddarparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer eu dysgwyr fel blaenoriaeth, mae dysgwyr yn elwa ar drefniadau sefydledig ag ystod eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol. Mae gan ychydig o ysgolion gysylltiadau cryf â'r fenter Dosbarth Busnes ac maent yn gweithio gyda nifer o gyflogwyr proffil uchel, fel Cymdeithas Adeiladu Principality, Cwmni Dur Tata, Bluestone a Gorsaf Bŵer Aberddawan. Mae ychydig o ysgolion wedi datblygu eu partneriaethau â chyflogwyr lleol fel gorsafoedd radio a chwmnïau garddio lleol.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Nantgwyn**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni trwy gyfrwng negeseuon testun, Twitter a gwefan yr ysgol. Mae ganddi gysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol sy'n hysbysebu lleoliadau gwaith ar wefan yr ysgol. Mae ymgynghorydd gyrfaoedd yr ysgol yn gwneud yn siŵr fod rhieni a dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn mynd ati i drefnu profiad gwaith.

Mae dysgwyr o bob grŵp oedran yn cymryd rhan mewn ystod werth chweil o brosiectau a phrofiadau. Mae cysylltiad effeithiol â Dosbarth Busnes gyda Chymdeithas Adeiladu Principality, sy'n darparu amrywiaeth o sesiynau i ddysgwyr, gan gynnwys sesiynau llythrennedd ariannol a darllen. Mae gan

yr ysgol gysylltiadau da ag amrywiaeth eang o gwmnïau lleol a chenedlaethol hefyd.

Mae adran wyddoniaeth yr ysgol yn hyrwyddo prentisiaethau a llwybrau academaidd fel ei gilydd. Mae'n hynod weithgar yn annog merched i faes peirianneg ac yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a heriau rhyngwladol, gan ennill y twrnamaint cynghrair Lego byd-eang ar gyfer roboteg raglennu. Mae'r merched a fu'n cymryd rhan bellach wedi symud i addysg drydyddol ac yn dod yn ôl i'r ysgol i hyfforddi grŵp Blwyddyn 9 ar gyfer y gystadleuaeth nesaf.

Mae gan yr ysgol ddau brosiect mentergarwch ar gyfer dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae un grŵp yn creu ac yn gwerthu cynhyrchion wedi eu gwneud o baledau pren wedi'u hailgylchu. Mae'r grŵp arall, mewn prosiect gwreiddiol, wedi ysgrifennu a chyhoeddi canllaw i ddefnyddwyr ar sut i aros yn ddiogel ar-lein trwy chwarae gêm ar-lein boblogaidd. Arweiniwyd y gweithgaredd gan ddysgwyr ac fe'u cyflwynwyd i ystod eang o fedrau, gan gynnwys dylunio graffeg a syniadau entrepreneuraidd. Trwy werthu eu cyhoeddiad, gallant brynu ategolion ar-lein ar gyfer y gêm, a chymryd rhan mewn cystadlaethau ar-lein rhyngwladol.

Fel ysgol pob oed, mae staff yn dechrau addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr oedran cynradd, ac yn targedu dysgwyr sy'n barod ar gyfer eu camau nesaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 hefyd. O ganlyniad, mae mwy o ddysgwyr yn gwybod ble maent yn mynd i barhau â'u hastudiaethau academaidd neu alwedigaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Pen Y Dre**

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal hynod ddifreintiedig. Mae uwch arweinwyr a staff yn falch o rôl yr ysgol yn y gymuned leol. Nod yr ysgol yw cadw llwybrau academaidd a galwedigaethol yn agored ar gyfer pob dysgwr.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau da ag amrywiaeth o ddiwydiannau lleol ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd. Yn benodol, mae ganddi bartneriaeth gref a hirsefydledig â chwmni yswiriant Legal and General trwy'r fenter Dosbarth Busnes. Mae'r cyflogwr yn cyfarfod yn rheolaidd â staff yr ysgol, ac yn teilwra'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn unol ag anghenion y gwahanol garfanau o ddysgwyr. Mae rheolwr cyswllt y cwmni yn ysgrifennu rhaglenni teilwredig sy'n benodol i anghenion yr ysgol.

Nod y rhaglenni hyn yw codi dyheadau a hunan-barch ar gyfer y dysgwyr hynny sydd fwyaf mewn angen, yn ogystal â darparu addysg a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer pob dysgwr. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys ffug gyfweliadau, hyfforddiant, gwersi llythrennedd ariannol, a gweithdai cyflogadwyedd.

### Dysgwyr sy'n ymgymryd â phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith sy'n effeithio ar eu lles, eu medrau cyflogadwyedd a'u dewisiadau gyrfa

32 Mewn ysgolion lle caiff dysgwyr gyfle i gymryd rhan mewn profiad gwaith ystyrlon, mae hyn yn eu helpu i ennill medrau a mewnwelediad gwerthfawr i lwybrau gyrfa yn y dyfodol. Yn yr ysgolion hyn, caiff dysgwyr eu paratoi a'u cynorthwyo'n dda trwy gymryd rhan mewn ffug gyfweliadau neu ddysgu sut i ysgrifennu curriculum vitae. Cânt eu briffio'n dda cyn mynychu'r lleoliad gwaith, a'u dadfriffio ar ddiwedd y profiad. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio dulliau teilwredig i ddiwallu anghenion unigol y dysgwr. Maent yn paru dysgwyr â chyflogwyr addas yn fedrus i ddarparu'r cymorth mwyaf priodol i sicrhau lles dysgwyr, a'u paratoi ar gyfer bywyd llwyddiannus fel oedolyn.

### Cysylltiadau cryf a phwrpasol â chyflogwyr

33 Mae llawer o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau cryf ag ystod eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol. Yn yr achosion gorau, mae'r ysgolion hyn yn defnyddio cyflogwyr yn dda i ddarparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, mae gan un ysgol bartneriaeth effeithiol â Bluestone, sef eu partner Dosbarth Busnes. Mae'r berthynas waith adeiladol hon wedi cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau dysgwyr. Mae dysgwyr a'u teuluoedd yn cydnabod gwerth y cyfleoedd hyn, ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cysylltiadau cyflogadwyedd o fewn y gymuned leol.

34 Trwy weithio gyda phartneriaeth trwy Dosbarth Busnes, cynhaliodd un ysgol raglen chwe wythnos i gyflwyno 14 dysgwr i ddysgu yn y gwaith. Yn ddiweddar, roedd yr ysgol wedi bod ynghlwm wrth raglen adnewyddu. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethant ddefnyddio eu perthnasoedd gwaith agos gyda'r contractwyr i ddarparu hyfforddiant prentisiaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr ym Mlwyddyn 11. Rhoddodd y cwmni gyfres o gyflwyniadau yn seiliedig ar fedrau hefyd, ynghyd â modelu curriculum vitae a ffug gyfweliadau. Llwyddodd tri o'r pedwar dysgwr a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad i sicrhau lle prentisiaeth wedi iddynt adael yr ysgol.

35 Mae gan ychydig o ysgolion gysylltiadau cryf â'r Gyfnewidfa Addysg Busnes (EBE), sy'n eu galluogi i ymgysylltu â chyflogwyr a gwahodd busnesau sy'n cymryd rhan i'r ysgol i roi cyflwyniadau i ddysgwyr, a siarad â nhw am gyfleoedd gyrfa. Er enghraifft, fel rhan o brosiect adeiladu lleol, mae staff Costain yn ymweld ag ysgol i siarad am amrywiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael i ddysgwyr, yn enwedig hyrwyddo rolau nad ydynt yn rhai ystrydebol, fel merched mewn peirianneg.

36 Roedd un ysgol yn rhan o'r cynllun peilot ar gyfer y Gyfnewidfa Addysg Busnes, a chafodd hyfforddiant wedi'i gyflwyno gan Gyrfa Cymru ar sut gellid defnyddio'r Gyfnewidfa Addysg Busnes. Mae ychydig o arweinwyr canol yn dechrau defnyddio offeryn y Gyfnewidfa Addysg Busnes i ddod o hyd i ffyrdd o integreiddio profiadau yn gysylltiedig â gwaith mewn cynlluniau gwaith, er enghraifft defnyddio gosodwr carpedi i roi mewnbwn i wersi mathemateg. Mae Gyrfa Cymru wedi nodi bod yr ysgol hon yn cyflwyno arfer dda, ac wedi gwahodd yr ysgol i gyflwyno rhwydweithiau o gyflogwyr ac arweinwyr ysgol. At ei gilydd, nid yw llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio cronfa ddata y Gyfnewidfa Addysg Busnes ddigon i ymgysylltu â chyflogwyr neu drefnu profiadau yn gysylltiedig â gwaith.

### Defnyddio a datblygu'n briodol y staff sy'n adnabod eu dysgwyr a'u dyheadau gyrfa, ac sy'n deall sut i baratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith

37 Ar y cyfan, mae athrawon a staff ysgol yn hynod ymroddgar i gynorthwyo dysgwyr i gymryd rhan mewn profiad gwaith. Mae ychydig o ysgolion yn goresgyn pwysau logistaidd ar gyfer staff trwy neilltuo cyfnodau amser i fentoriaid ymweld â lleoliadau gwaith wedi eu gwasgaru'n eang. Yn yr achosion gorau, mae gan ysgolion gydlynwyr profiadol sy'n gweithredu fel unigolyn cyswllt rhwng yr ysgol a'r cyflogwyr partner. Maent yn cyfleu disgwyliadau clir am yr angen am dasgau ystyrlon a heriol sy'n ystyried galluoedd a thueddfryd dysgwyr. Maent yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y lleoliadau, er enghraifft trwy sicrhau eu bod i gyd yn cael arweiniad defnyddiol ar ddiogelu ac iechyd a lles gan Swyddog Iechyd a Diogelwch yr ysgol. Ar ddiwedd y lleoliad gwaith, mae cyflogwyr yn cwblhau asesiad y mae cydlynwyr yn ei ddefnyddio'n effeithiol i ysgrifennu adborth ffurfiol buddiol ar gyfer pob dysgwr.

### Defnyddio gwybodaeth a data olrhain y farchnad lafur i ddeall yr economi leol

38 Mae gan lawer o ysgolion ddealltwriaeth resymol o'r economi leol a chyfleoedd cyflogadwyedd yn yr ardal leol. Er enghraifft, mae un ysgol yn rhoi llyfryn gyrfaoedd gwerthfawr ac addysgiadol i'r holl ddysgwyr ym Mlwyddyn 9, sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am yr economi a'r farchnad lafur leol. Mae gan ychydig o ysgolion systemau ffurfiol i olrhain cyrchfannau dysgwyr, a gallant lywio cynllunio dewisiadau gyrfa dysgwyr yn y dyfodol.

**Astudiaeth achos 5: Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf (RhCT)**

Mae awdurdod lleol RhCT wedi ymrwymo'n gryf i bwysigrwydd profiad yn gysylltiedig â gwaith a'r rôl y gall yr awdurdod lleol ei chwarae mewn cefnogi ysgolion. Mae tîm addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yr awdurdod lleol yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i hyrwyddo a hwyluso addysg yn gysylltiedig â gwaith a phartneriaethau â chyflogwyr. Mae'r tîm yn cynnal cronfa ddata o gyflogwyr sy'n gallu cynnig profiadau yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr. Mae aelodau'r tîm addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ymweld ag ysgolion i ddarparu gwybodaeth am lwybrau prentisiaeth, cyfleoedd profiad gwaith ac addysg yn gysylltiedig â gwaith.

Mae gan yr awdurdod lleol nifer uchel o brentisiaethau yn y cyngor ac mae ychydig o aelodau staff yn ennill cymwysterau trwy'r rhaglen hyfforddiant prentisiaeth. Ar hyn o bryd, maent yn ymchwilio i sut gallant gyflogi mwy o brentisiaid trwy fenter y Fargen Ddinesig.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu crynodeb o wybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer ysgolion, a nod cynllunio'r cwricwlwm yn y sector ôl-16 yw ystyried y bylchau yn y cwricwlwm lleol ar sail y wybodaeth hon.

Mae staff yn yr awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r hinsawdd economaidd yn yr ardal. Mae ganddynt dîm addysg, cyflogaeth a hyfforddiant dynodedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i hyrwyddo a hwyluso addysg yn gysylltiedig â gwaith a phartneriaethau gyda chyflogwyr. Mae hyn yn helpu athrawon i hyrwyddo profiadau yn gysylltiedig â gwaith trwy'r cwricwlwm.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal nifer o wahanol raglenni, gan gynnwys:

- **Cymunedau am Waith.** Mae'r rhaglen hon yn gweithio gydag wyth ardal yn Rhondda Cynon Taf. Mae staff yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant (NACH). Mae'n rhaglen deilwredig unigol i ddarganfod yr hyn y mae pob unigolyn eisiau ei gyflawni, ac archwilio'r rhwystrau sy'n atal hyn. Mae'r rhaglen ynglŷn â meithrin hyder a hunan-barch. Ar ôl mynd i'r afael â'r materion hyn, mae staff yn trafod diddordebau'r dysgwr ac yn caffael hyfforddiant i alluogi'r dysgwr i gyflawni ei uchelgeisiau.
- **Platform 1 ac Ignite.** Mae'r rhaglenni hyn wedi eu cynllunio ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i'w helpu i ddatblygu medrau byw yn annibynnol. Mae staff yn chwilio am gyfleoedd i bobl wirfoddoli o fewn gwasanaethau mewnol yr awdurdod lleol, ac ymgymryd â lleoliadau gwaith gwirfoddol.
- **Llwybr cyflogaeth.** Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i wella medrau hanfodol. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda 47 o gyflogwyr sydd â swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae'r cyflogwyr hyn yn helpu datblygu'r rhaglen ar gyfer y bobl yr hoffent eu cyflogi. Mae'r rhaglen wedi'i theilwra i unigolion ennill y cymwysterau sy'n ofynnol gan y cyflogwr. Mae sicrwydd y bydd pob unigolyn sy'n ennill ei gymwysterau yn cael cyfweliad. Er enghraifft, cyflogwyd chwech o bobl ifanc gan Whitbread, sef bragdy blaenllaw, wedi iddynt gwblhau'r rhaglen.

## Gwerthuso partneriaethau â chyflogwyr

39 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso effaith profiad gwaith, ffeiriau gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad, a siaradwyr gwadd yn systematig fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso. Yn yr achosion gorau, maent yn nodi rhai o gryfderau eu gwaith yn y maes hwn, ac mae ganddynt systemau ar waith i fesur llwyddiant yn gywir. Maent hefyd yn nodi meysydd i'w gwella yn glir, ac yn ysgogi newid a gwelliannau.

**Astudiaeth achos 6: Ysgol Bro Myrddin**

Mae pob dysgwr yn mynd ar brofiad gwaith tuag at ddiwedd Blwyddyn 10. Caiff bron pob un o'r dysgwyr eu paru â lleoliadau gwaith gan y pennaeth blwyddyn, sy'n cyfweld â phob dysgwr i archwilio addasrwydd eu cynllun gyrfa i'r profiad a'r medrau y gall cyflogwr eu cynnig. Rhoddir cyfle i bob un o'r cyflogwyr lenwi ffurflenni adborth am bob dysgwr. Mae athrawon yn trafod y profiadau gyda dysgwyr pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol, ac yn defnyddio'r adborth hwn i werthuso'r profiad a dadfriffio dysgwyr.

### Partneriaethau o ansawdd uchel â darparwyr eraill, mentrau cenedlaethol, ac ymgysylltu â rhieni

40 Mae gan yr ysgolion mwyaf effeithiol gysylltiadau sefydledig â darparwyr eraill, fel sefydliadau addysg bellach a phrifysgolion, i gefnogi dewisiadau gyrfa dysgwyr. Mae ychydig iawn o ysgolion hefyd yn datblygu cysylltiadau cryf â darparwyr dysgu yn y gwaith ac mae staff yn annog dysgwyr i ystyried y llwybr prentisiaeth i ddysgwyr ei ddilyn fel llwybr arall ar gyfer llwyddiant gyrfa.

41 Mae llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn nifer o fentrau cenedlaethol, ac yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt, fel Dosbarth Busnes (BC), y Gyfnewidfa Addysg Busnes (EBE) neu Syniadau Mawr Cymru (BIW), neu'n gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru. Dywed llawer o ysgolion eu bod yn tueddu i ddefnyddio'r Gyfnewidfa Addysg Busnes i ymgysylltu â chyflogwyr i ymweld ag ysgolion am sgyrsiau, yn hytrach na fel offeryn i ddarparu profiad gwaith. Adroddodd ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw fod y Gyfnewidfa Addysg Busnes yn targedu cyflogwyr ar gyfer dysgwyr prif ffrwd yn unig, ac nid y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwerthfawrogi gwaith Syniadau Mawr Cymru yn fawr fel adnodd i wahodd siaradwyr ysgogol i wneud cyflwyniadau i ddysgwyr.

42 Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn ymgysylltu'n gryf â rhieni a gofalwyr fel adnodd ar gyfer darparu cysylltiadau â busnesau lleol a chyflogwyr, ac ar gyfer datblygu cyngor ac arweiniad diduedd ar y llwybrau gyrfaoedd amrywiol sydd ar gael i'w plant. Mae un ysgol wrthi'n dechrau ailgyflwyno menter fforwm rhieni a ffrindiau'r ysgol. Maent yn dechrau creu rhwydwaith cyn-ddisgyblion eang i helpu sicrhau bod cyflogwyr yn cael eu cynnwys yn fwy yn narpariaeth y cwricwlwm yn y dyfodol.

# 3 Beth yw'r heriau i ysgolion sy'n ymgysylltu â chyflogwyr, a chyflogwyr sy'n ymgysylltu ag ysgolion?

## Beth yw'r heriau i ysgolion sy'n ymgysylltu â chyflogwyr?

43 Adroddodd bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fod sawl her o ran ymgysylltu â chyflogwyr, a datblygu partneriaethau â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dywed staff ysgolion fod sefydlu cysylltiadau â chyflogwyr a datblygu profiadau yn y gwaith o ansawdd uchel yn heriol oherwydd y pwysau wrth baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau TGAU.
- Nid oes gan lawer o ysgolion ddull cydlynus a strategol i weithio mewn partneriaeth. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n helpu staff i gynllunio digwyddiadau gyda chyflogwyr.
- Yn aml, mae llai o adnoddau a gostyngiadau o ran staff yn arwain at doriadau i weithgareddau anstatudol, fel profiadau yn gysylltiedig â gwaith.
- Nid oes system ganolog ar gyfer cynllunio darpariaeth a chymorth gyrfaoedd gan gyflogwyr.
- Nid oes gan lawer o ysgolion ddealltwriaeth dda o'r dirwedd fusnes yn eu hardal, ac nid ydynt yn cadw mewn cysylltiad â'r Siambr Fasnach, y Ffederasiwn Busnesau Bach na Chydffederasiwn Diwydiant Prydain.
- Mewn llawer o ysgolion, mae angen hyfforddi a datblygu staff i ddatblygu'r ddealltwriaeth a'r medrau sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith.
- Nid yw llawer o ysgolion yn datblygu trefniadau partneriaeth digon cryf gyda chyflogwyr yn lleol. Nid oes ganddynt wybodaeth am y farchnad lafur.
- Nid yw llawer o ysgolion yn manteisio'n llawn ar arbenigedd eu rhieni am lwybrau gyrfa nac i sicrhau profiadau yn gysylltiedig â gwaith. Nid ydynt bob amser yn defnyddio'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn ddigon da nac yn trafod profiadau yn gysylltiedig â gwaith gyda'u llywodraethwyr.
- Mae mwyafrif y dysgwyr y cyfwelwyd â nhw yn ystod ymweliadau yn disgwyl gadael Cymru i gael gwaith. Mewn llawer o ysgolion ledled Cymru, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwaith sydd ar gael yn eu hardal leol a fyddai'n eu galluogi i lywio eu dewisiadau gyrfa. Mewn llawer o achosion, lle gall dysgwyr sicrhau lleoliad gwaith, ni allant gael swydd gan nad oes unrhyw swyddi gwag.
- Mewn ysgolion arbennig, gall tuedd rhai rhieni i fod yn or-amddiffynnol o'u plant fod yn rhwystr pan fydd ysgolion yn ceisio darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith. Yn aml, mae rhieni'n nerfus ynglŷn â'u plant yn cymryd rhan mewn profiad gwaith â chymorth, neu nid ydynt yn credu eu bod yn abl i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

## Beth yw'r heriau i gyflogwyr sy'n ymgysylltu ag ysgolion?

44 Mae ein harolwg o farn cyflogwyr yn awgrymu'r canlynol:

- Yn aml, nid oes gan gyflogwyr bach yr amser na'r adnoddau i'w neilltuo i

drefniant partneriaeth gynaledig.

- Bod gan bron bob un ohonynt bryderon am eu cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch pobl ifanc ar brofiad gwaith. Mae llawer ohonynt yn pryderu am faterion diogelu ac amddiffyn plant a'r gofynion datgelu a gwahardd presennol.
- Mynegodd y rhan fwyaf ohonynt anawsterau wrth geisio cysylltu ag ysgolion.
- Nid yw llawer o gyflogwyr yn deall pa brofiadau yn gysylltiedig â gwaith y mae ysgolion eisiau ymgymryd â nhw. Mae ychydig o gyflogwyr yn anghyfarwydd â'r system addysg yng Nghymru. Nid ydynt yn deall blynyddoedd academaidd a sut maent yn perthnasu ag oedran y dysgwyr.

45 Pan fydd cyflogwyr yn goresgyn yr heriau hyn, mae nifer o fanteision i'w busnes a'u staff. Er enghraifft, gallant hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth i ddysgwyr a gall staff ymestyn eu datblygiad proffesiynol trwy weithio gyda phobl ifanc.

# Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso i ysgolion ar y modd y gall gweithio gyda chyflogwyr eu helpu i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru

Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol i ysgolion ofyn iddyn nhw eu hunain wrth iddynt ddechrau meddwl am, a pharatoi ar gyfer, gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

- Sut gallwn ni ddatblygu profiadau cwricwlwm newydd ac ystyrlon i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad o weithgareddau yn gysylltiedig â gwaith?
- Sut gallwn ni gyflwyno mwy o waith partneriaeth gyda chyflogwyr ar draws y cwricwlwm?
- Sut gallem ni gynnig profiad gwaith ystyrlon, o ansawdd uchel, ar gyfer ein dysgwyr?
- Sut gallwn ni fesur effaith profiadau yn gysylltiedig â gwaith, fel ffeiriau gyrfaoedd?
- Sut mae eich ysgol yn cysylltu ag ysgolion eraill i gynllunio profiadau yn gysylltiedig â gwaith, sy'n rhannu arbenigedd cyflogwyr a busnesau lleol?
- Sut mae ein hysgol yn gweithio gyda Gyrfa Cymru?

# Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau â 23 o ysgolion uwchradd
- ymweliadau â dwy ysgol arbennig
- cyfweliadau â phenaethiaid, arweinwyr canol a staff ysgol
- cyfweliadau â dysgwyr
- cyfweliadau â chyflogwyr
- arolwg o gyflogwyr
- craffu ar ddogfennau ysgolion
- cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol
- craffu ar ddogfennau awdurdodau lleol

Ymwelodd arolygwyr â nifer o ysgolion uwchradd ac arbennig ledled Cymru, a ddewiswyd am eu gwaith presennol yn datblygu partneriaethau gyda chyflogwyr. Ymwelodd arolygwyr â detholiad o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2019 hefyd. Casglwyd tystiolaeth arolygu gan gyflogwyr, staff ysgolion a dysgwyr ar ffurf cofweinydd, cyfweliadau a 25 o ymatebion i arolwg o gyflogwyr.

Dyma ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r astudiaeth hon:

- Ysgol Gyfun y Coed-duon
- Ysgol Sylfaen Bryn-mawr
- Ysgol Gyfun Caerllion
- Ysgol Gyfun Gatholig Rufeinig Cardinal Newman
- Ysgol Uwchradd Castell Alun
- Ysgol Cas-gwent
- Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge
- Ysgol Gymunedol Dylan Thomas
- Ysgol Gymunedol Glynrhedynog
- Ysgol Uwchradd Hwlffordd
- Ysgol Uwchradd Llanidloes
- Ysgol Pentrehafod
- Ysgol Arbennig Pen Y Cwm
- Ysgol Pen Y Dre
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo
- Ysgol Gyfun Gorllewin Mynwy
- Ysgol Nantwyn
- Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Ysgol Bryngwyn
- Ysgol Brynrefail
- Ysgol Friars
- Ysgol Glan Y Môr

- Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
- Ysgol Syr Hugh Owen
- Ysgol Uwchradd Bodedern

Awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw:

- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Geirfa

**LMI** Gwybodaeth am y farchnad lafur

**Profiad Gwaith** Lleoliadau gwaith a gynigir gan gyflogwyr ar gyfer dysgwyr

**STEM** Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg

### Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Education Scotland (2017) *Review of the Implementation of the Career Education Standard (3-18), the Work Placement Standard and Guidance on School/Employer Partnerships.* Livingston: Education Scotland. [Ar-lein]. Ar gael o: https://education.gov.scot/Documents/ces-implementation-review0517.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2018]

Egan, D. (2017) *A national ambition: Enterprise education, schools and the Welsh economy.* Cardiff: FSB Wales.

Estyn (2012) *Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Penderfyniadau%20gwybodus%3A%20Gweithredu%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20fframwaith%20Gyrfaoedd%20a%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20Byd%20Gwaith%20-%20Hydref%202012.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2018]

Estyn (2017) *Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Careers%20-%20Thematic%20survey%20report%20cy.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2018

Gyrfa Cymru (2017) *Newid Bywydau: Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru 2017-20.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/static.live.careerswales.net/Careers_Wales_Report_ENGLISH-lores.pdf [Darllenwyd 25 Mai 2018]

Holman, J. (2014) Good Career Guidance. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gatsby.org.uk/uploads/education/reports/pdf/gatsby-sir-john-holman-good-career-guidance-2014.pdf [Darllenwyd]

Llywodraeth Cymru (2019) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru [Darllenwyd 30 Ebrill 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/storage/0f62c909-c4ba-4027-af42-517d3ca4157c/gyrfaoedd-ar-byd-gwaith-fframwaith-i-bobl-ifanc-11-i-19-oed-yng-nghymru.pdf [Darllenwyd 25 Mai 2018]

Ofsted (2016) *Getting ready for work*. Manchester: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577236/Getting_ready_for_work.pdf [Darllenwyd 30 Ebrill 2018]

Scottish Government (2014) *Developing the Young Workforce: Scotland's Youth Employment Strategy.* Edinburgh: Scottish Government. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/strategy-plan/2014/12/developing-young-workforce-scotlands-youth-employment-strategy/documents/00466386-pdf/00466386-pdf/govscot%3Adocument/00466386.pdf?forceDownload=true [Darllenwyd 25 Mai 2018]